



Budd cyhoeddus

Trosolwg

Cynnwys

Rhan 1: Am y canllaw hwn	1
Rhan 2: Sut mae deall budd cyhoeddus yn helpu elusennau	3
Rhan 3: Am ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn	4
Rhan 4: Rhoi sylw i ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn	5
Rhan 5: Am y gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus	6

Rhan 1: Am y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg (ond nid yw'n ffurfio rhan) o gyfres o dri chanllaw budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau.

Am ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn

Mae'r comisiwn wedi ysgrifennu cyfres o dri chanllaw budd cyhoeddus sy'n esbonio budd cyhoeddus mewn tri chyd-destun gwahanol.

Y rheswm am hyn yw oherwydd bod budd cyhoeddus yn rhan o'r hyn y mae'n ei olygu:

- i fod yn elusen

Mae hyn yn cynnwys cael dibenion elusennol yn unig sydd ar gyfer budd y cyhoedd. Mae'r 'gofyniad budd cyhoeddus' wedi'i ddiffinio gan Ddeddf Elusennau 2011.

Mae'r comisiwn yn esbonio hwn yn **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus** (PB1).

- gweithredu fel elusen

Mae hyn yn cynnwys cyflawni dibenion elusen er budd y cyhoedd. Mae'r ddyletswydd hon yn bodoli yn y gyfraith elusennau oherwydd bod budd cyhoeddus yn rhan annatod o ddibenion elusen.

Mae'r comisiwn yn esbonio hwn yn **Budd cyhoeddus: rhedeg elusen** (PB2).


- adrodd ar waith elusen

Mae hyn yn cynnwys adrodd ar sut y mae'r ymddiriedolwyr wedi cyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd. Mae'r ddyletswydd hon i'w gweld yn y rheoliadau cyfrifyddu ar gyfer elusennau.

Mae'r comisiwn yn esbonio hwn yn **Budd cyhoeddus: adrodd** (PB3).

Mae'r siart fframwaith budd cyhoeddus yn dangos y gofynion a'r dyletswyddau ar wahân ond cyfochrog hyn:

Fframwaith budd cyhoeddus



Rhan 2: Sut mae deall budd cyhoeddus yn helpu elusennau

Mae budd cyhoeddus yn rhan hanfodol o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn elusen. Ond mae'n fwy na dim ond gofyniad cyfreithiol y mae'n rhaid i elusennau ei fodloni ac mae'r comisiwn yn ei reoleiddio.

Mae hefyd yn rhoi cyfle cadarnhaol i elusennau ddangos y buddion y maent yn eu cynnig i'r cyhoedd, yn gyfnewid am y buddion ariannol a'r buddion eraill a ddaw o fod yn elusen, megis cymorth cyhoeddus.

Mae deall budd cyhoeddus yn helpu'r rhai sy'n sefydlu neu'n rhedeg elusennau i wybod beth y mae'n ei olygu i fod yn elusen, ac i weithredu fel y dylai elusen. Mae hefyd yn helpu ymddiriedolwyr elusen i ddisgrifio ac adrodd ar waith eu helusen.

Gall hyn helpu ymddiriedolwyr i:

- barhau i ganolbwyntio ar yr hyn y cafodd eu helusen ei sefydlu i'w gyflawni
- adrodd hanes gwaith eu helusen, a'i heffaith, i'w cefnogwyr a'u buddiolwyr, rhoddwyr grantiau a chyrff cyllido

Deall budd cyhoeddus

Gall y gyfraith ar fudd cyhoeddus fod yn gymhleth a gall yr iaith a ddefnyddir am fudd cyhoeddus yn y gyfraith elusennau fod yn anghyfarwydd.

Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu sefydlu elusen, neu'n rhedeg elusen neu'n adrodd ar sut rydych wedi cyflawni dibenion eich elusen, i'r rhan fwyaf o elusennau mae budd cyhoeddus yn fater eithaf syml.

Yn y bôn, mae budd cyhoeddus yn golygu gwybod am:

- yr hyn y cafodd yr elusen ei sefydlu i'w gyflawni - gelwir hyn yn 'ddiben' yr elusen
- sut mae diben yr elusen yn fuddiol - yr 'agwedd budd' ar fudd cyhoeddus
- sut mae diben yr elusen yn rhoi budd i'r cyhoedd neu ran ddigonol o'r cyhoedd - yr 'agwedd cyhoeddus' ar fudd cyhoeddus
- sut bydd yr ymddiriedolwyr yn cyflawni diben yr elusen er budd y cyhoedd - gelwir hyn yn 'hyrwyddo' diben yr elusen er budd y cyhoedd

Os ydych yn sefydlu elusen, neu'n ymddiriedolwr elusen sydd eisoes yn bod, dylech allu ateb y cwestiynau hynny.

Mae canllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau yma i'ch helpu i ystyried a yw pob un o ddibenion eich sefydliad yn bodloni'r gofyniad budd cyhoeddus ac a ydych yn cyflawni'r dibenion hynny er budd y cyhoedd.

Rhan 3: Am ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn

Mae canllawiau budd cyhoeddus y comisiwn

- yn ganllawiau ar fudd cyhoeddus y mae'n rhaid i'r comisiwn eu cyhoeddi:
 - i hyrwyddo amcan budd cyhoeddus statudol y comisiwn sef 'codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithrediad y gofyniad budd cyhoeddus'.
 - fel canllaw i helpu ymddiriedolwyr elusen i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau wrth redeg eu helusen i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd
- yn ganllawiau y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr elusen 'roi sylw iddynt' wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt (gweler rhan 4 o'r canllaw hwn)
- nid yw'n gyfraith ar fudd cyhoeddus

Maent yn ganllawiau cyffredinol lefel uchel sy'n adlewyrchu'r gyfraith ar fudd cyhoeddus. Maent wedi'u hysgrifennu ar gyfer ymddiriedolwyr elusen i esbonio beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus a sut mae'r comisiwn yn dehongli ac yn cymhwysu'r gyfraith honno.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler Rhan 5: Am y gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus.

Bydd y comisiwn yn adolygu ei ganllawiau'n gyson wrth i'r gyfraith yn y maes hwn datblygu.

- nid yw'n sail ar gyfer gwneud penderfyniadau am fudd cyhoeddus

Nid yw'r comisiwn yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ein canllawiau budd cyhoeddus lefel uchel oherwydd ni all gwmpasu holl gymhlethdodau'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus.

Mae'r comisiwn yn gwneud penderfyniadau am fudd cyhoeddus mewn achosion unigol ar y gyfraith fel y bo'n gymwys i ffeithiau'r achos arbennig.

- ni fydd (ac ni all) roi sylw i bob cwestiwn am fudd cyhoeddus a all fod gan yr ymddiriedolwyr

Gall y cwestiynau hyn gael eu hateb yn yr wybodaeth arall a ddarperir gan y comisiwn am gwestiynau budd cyhoeddus penodol neu wrth roi cyngor mewn achosion unigol.

Rhan 4: Rhoi sylw i ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn

Beth mae'r Ddeddf Elusennau yn ei gwneud yn ofynnol

Mae'r Ddeddf Elusennau yn datgan bod rhaid i ymddiriedolwyr elusen 'roi sylw' i ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn 'wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt'.

Mae Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusen gadarnhau eu bod nhw wedi gwneud hynny yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

Mae 'rhoi sylw' i ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn yn golygu y dylai ymddiriedolwyr elusen allu dangos eu bod:

- yn ymwybodol o'r canllawiau
- wedi rhoi sylw i'r canllawiau pan fyddant yn gwneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo
- os ydynt wedi penderfynu gweithredu'n wahanol i'r canllawiau, bod rhesymau da ganddynt dros wneud hynny.

Rhan 5: Am y gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus

I ddeall budd cyhoeddus, mae'n ddefnyddiol gwybod:

Mewn perthynas â budd cyhoeddus diben elusen, mae'r gyfraith ar fudd cyhoeddus:

- heb gael ei hystyried gan y llysoedd mewn perthynas â phob diben elusennol
Er bod rhai egwyddorion cyffredinol y gellir eu tynnu o'r penderfyniadau cyfreithiol sy'n gymwys i bob elusen.
- nid yw'n fater syml ac mae'n newid yn gyson
Mae'r gyfraith elusennau wedi datblygu dros gannoedd o flynyddoedd ac, fel dibenion elusennol, mae'n parhau i ddatblygu wrth i amodau cymdeithasol newid.
- yn cael ei ystyried yn ei gyd-destun neu fesul achos
Mae'r ffordd y caiff budd cyhoeddus ei ddangos yn amrywio yn ôl y diben sy'n cael ei hyrwyddo.

Mewn perthynas â chyflawni dibenion elusen er budd y cyhoedd, nid yw'r gyfraith ar fudd cyhoeddus:

- yn pennu pa benderfyniadau ar fudd cyhoeddus y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr eu gwneud
Ceir ffiniau cyfreithiol ac mae'n rhaid i ymddiriedolwyr weithredu o fewn y ffiniau hyn ond, o fewn y ffiniau hyn, maent yn rhydd i ymarfer eu disgresiwn wrth wneud penderfyniadau.
Mewn sawl sefyllfa nid oes unrhyw un penderfyniadau 'cywir' i'w wneud; yn hytrach ceir amryw o benderfyniadau y gallai fod yn briodol i ymddiriedolwr ei wneud yn yr amgylchiadau arbennig hynny.
Ar yr amod bod yr ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniad o fewn yr ystod hon, byddan nhw wedi gwneud y penderfyniad 'iawn' bob tro.

Dadansoddiad y Comisiwn Elusennau o'r gyfraith

I gael gwybodaeth am farn y comisiwn o'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus gweler ein **Dadansoddiad o'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus**.

Gall y dadansoddiad hwn o'r gyfraith fod o ddiddordeb i ymddiriedolwyr elusen a hoffai wybod mwy am sail gyfreithiol canllawiau'r comisiwn. Fodd bynnag, nid yw'n ffurfio rhan o'n cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus, ac felly nid yw'n ganllaw y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen roi sylw iddo fel y cyfryw.